

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Ile rhoddwyd rhybudd)

Urbasba @ Coleg Caerdydd a'r
Fro

Dyddiad yr arolygiad: 26 Ebrill
2018

Dyddiad cyhoeddi: 27
Gorffennaf 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy'r

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogelac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	16
4.	Beth nesaf?	19
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	21
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	22
	Atodiad B Cynllun gwella.....	23

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru'n derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: mae profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Gonestrwydd: rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn yr ydym yn ei weld
- Cydweithredu: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: rydym yn gweithredu'n effeithlon, yn effeithiol a chymesur.

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.

Dylanwadu ar bolisiâu a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arferion.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Urbasba @ Coleg Caerdydd a'r Fro ar 26 Ebrill 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC, ac roedd un o'r rhain yn arwain yr arolygiad.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, canfuom fod Urbasba @ Coleg Caerdydd a'r Fro wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth effeithiol i'w cleifion mewn amgylchedd a oedd yn ffafriol i ddarparu triniaethau golau pwls dwys.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddwyd gwybodaeth ddigonol i gleifion cyn y driniaeth a chynghor ar ôl triniaeth
- Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion, gan geisio adborth yn rheolaidd i wella gwasanaethau lle bo hynny'n berthnasol
- Roedd yr adeilad yn fodern, yn lân, yn ddaclus ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda
- Roedd gan y gwasanaeth amrywiaeth dda o weithgareddau gwella ansawdd ar waith i fonitro a nodi meysydd y gallai fod angen eu datblygu
- Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel
- Mae staff yn derbyn hyfforddiant rheolaidd mewn nifer o feysydd er mwyn sicrhau bod eu sgiliau a'u gwybodaeth yn parhau yn berthnasol ac yn gyfredol
- Mae nifer o wasanaethau/adrannau o fewn Coleg Caerdydd a'r Fro yn cefnogi Urbasba o ran iechyd a diogelwch, diogelu ac adnoddau dynol. Roedd hyn yn darparu cefnogaeth gadarn ar gyfer yr holl staff yn Urbasba.

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen diweddarau'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r rheoliadau.

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Urbasba yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol i ddarparu gwasanaethau golau pwls dwys (IPL) ar Heol Dumballs, Caerdydd, CF10 5FE.

Cofrestrwyd y gwasanaeth gydag AGIC yn gyntaf ar 4 Medi 2017.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm staff sy'n cynnwys pedwar gweithredwr golau pwls dwys arall (y mae un ohonynt yn brif weithredwr golau pwls dwys).

Darperir amrywiaeth o wasanaethau, sy'n cynnwys y canlynol:

- Gwaredu blew
- Adfywio'r croen

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Canfuom fod y staff yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'r cleifion. Roedd ffurflenni adborth a gasglwyd gan Urbasba wrth eu cleifion yn cynnwys sylwadau cadarnhaol am y gwasanaeth hyd yn hyn.

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth fanwl cyn ac ar ôl triniaeth i'w helpu i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth.

Roedd gan y gwasanaeth brosesau priodol ar waith i sicrhau bod ymgynghoriadau â chleifion yn cael eu cynnal yn breifat a chydag urddas.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom y gofynnwyd i gleifion lenwi ffurflen hanes meddygol cyn y driniaeth gychwynnol, a oedd yn cael ei llofnodi gan y claf a'r gweithredwr. Roedd hanes meddygol y cleifion a'u cyflwr/cyflyrau yn cael eu gwirio yn ystod pob apwyntiad i sicrhau bod y driniaeth yn cael ei darparu'n ddiogel a'i nodi ar gofnodion y cleifion.

Urddas a pharch

Cyn unrhyw driniaeth, cynhelir trafodaethau gyda chleifion i sicrhau eu bod yn deall sut fydd y driniaeth yn cael ei chyflawni.

Dywedodd staff wrthym, lle bo'n briodol, byddai hebryngwyr yn cael eu defnyddio ar gyfer rhai triniaethau a bod yr ystafell ar gau pan fod triniaethau yn cael eu cynnal.

Roedd gan yr adeilad hwn ddigon o le er mwyn cynnal sgysiau yn breifat a thrafod gwybodaeth bersonol heb i neb ei chlywed.

Gwybodaeth a chydsyniad cleifion

Mae pob claf yn derbyn ymgynghoriad cyn dechrau unrhyw driniaeth fel y gall y broses a'r canlyniad/canlyniadau gael eu hesbonio'n llawn. Yn ogystal, mae cyngor ynghylch risgiau ac ôl-ofal hefyd yn cael eu trafod cyn y gofynnir i glaf lofnodi'r ffurflen ganiatâd yn cadarnhau ei ddealltwriaeth a'i gytundeb i driniaeth. Gwelsom dystiolaeth o ffurflenni caniatâd wedi'u cwblhau gan sicrhau bod pob maes wedi'i gynnwys a bod llofnodion cleifion a staff ar gael.

Gwnaethom ganfod bod digon o wybodaeth yn cael ei darparu i gleifion er mwyn iddynt wneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth. Roedd hyn oherwydd bod cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb â gweithredwr y golau pwls dwys cyn i driniaeth ddechrau. Roedd trafodaethau â chleifion yn cynnwys y risgiau, y manteision a chanlyniad tebygol y driniaeth a gynigir. Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael prawf croen cyn i driniaeth ddechrau ac yn derbyn cyngor ôl-ofal ar ôl y driniaeth. Golygai hyn fod y gwasanaeth yn cymryd camau i sicrhau diogelwch cleifion a gwelsom enghreifftiau o wybodaeth ysgrifenedig a ddarparwyd i'r cleifion.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd canllaw i gleifion ar gael a oedd yn darparu gwybodaeth am y gwasanaeth gan gynnwys y meysydd a oedd yn ofynnol gan y rheoliadau. Gwnaethom argymhell bod angen diweddarau'r canllaw i gleifion i gynnwys cyferiad e-bost newydd AGIC. Yn ogystal â hyn, yn dilyn yr arolygiad, bydd angen i'r canllaw i gleifion gynnwys gwybodaeth ynghylch sut gall y cleifion gael mynediad at yr adroddiad diweddaraf.

Darparwyd datganiad o ddiben¹ yn ystod ein hymweliad. Wrth adolygu'r ddogfen, gwelsom ei bod yn cynnwys yr wybodaeth angenrheidiol ar gyfer y rheoliadau. Er hyn, roedd angen nodi'r dyddiad a'r awdur ar y ddogfen.

¹ Every service provider is required by law to have a Statement of Purpose and it should include specific details about the service, what treatments are provided, to who (age), by whom and any equipment used. For more information visit hiw.org.uk

Dywedodd staff wrthym fod canllaw i gleifion yn cael ei roi i gleifion ar ôl yr ymgynghoriad cyntaf, ond nid oedd y ddogfen ar gael yn y man aros.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen diweddarau'r canllaw i gleifion i nodi cyfeiriad e-bost newydd ar gyfer AGIC ynghyd â gwybodaeth ynghylch sut gall cleifion gael mynediad at yr adroddiad arolygu diweddaraf. Dylai'r canllaw i gleifion diwygiedig gael ei anfon at AGIC.

Mae angen i ddyddiad ac awdur y datganiad o ddiben gael eu cynnwys ar y ddogfen.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd yr holl gleifion yn derbyn apwyntiad ymgynghori cyn dechrau ar unrhyw driniaeth, a oedd yn cynnwys asesiad math o groen. Gwelsom fod canlyniad yr asesiad hwn yn cael ei gofnodi a'i ddefnyddio i gynorthwyo gyda thriniaethau. Gwelsom enghreifftiau o wybodaeth a dogfennau ôl-ofal, a oedd yn cynnwys risgiau a manteision triniaeth.

Gwelsom enghreifftiau o gofnodion cleifion a oedd yn fanwl ac wedi'u diweddarau gan y claf a'r ymarferydd yn ystod pob apwyntiad.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn cynnal cofrestr triniaeth gyffredinol sy'n benodol i'rpeiriant golau pwls dwys. Roedd y cofnodion yn fanwl ac yn drylwyr yn unol â'r rheoliadau.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd Urbasba wedi'i leoli ar lawr daear campws Coleg Caerdydd a'r Fro, ac felly yn hygyrch i unrhyw un sydd ag anhawster symudedd. Roedd yr holl ystafelloedd triniaeth ar un lefel, ac roedd hyn yn darparu mynediad hawdd atynt.

Ymgysylltu â dinasyddion a chael adborth

Roedd gan Urbasba system ar waith er mwyn casglu adborth wrth gleifion. Gwelsom enghreifftiau o rai holiaduron a gwblhawyd gan gleifion, ac roeddent yn darparu adborth cadarnhaol ynghylch y gwasanaeth a'r triniaethau a ddarparwyd.

Gan nad oedd y gwasanaeth wedi bod yn gweithredu ers cyfnod hir, nid oedd nifer sylweddol o ffurflenni adborth ar gael, ond dywedodd staff eu bod yn bwriadu adolygu'r holl adborth a sicrhau bod y sylwadau yn cael eu hadolygu a lle bo'n briodol, bod camau gweithredu addas yn cael eu rhoi ar waith.

Cyflenwi gofal diogelac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd systemau ar waith a oedd yn sicrhau bod cleifion yn cael eu trin mor ddiogel â phosibl. Canfuom fod y peiriant golau pwls dwys yn cael ei gynnal a'i gadw yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr ac roedd gan y staff hyfforddiant cyfredol ar y defnydd o'r peiriant.

Roedd yr ystafell driniaeth i'w gweld yn lân ac yn daclus ac roedd y staff yn ymwybodol o'r tasgau glanhau beunyddiol a oedd yn ofynnol er mwyn sicrhau bod y safonau yn parhau yn uchel.

Canfuom fod y gwasanaeth wedi cymryd camau i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles staff sy'n gweithio yn yr adeilad, a'r bobl sy'n ymweld.

Roedd tîm iechyd a diogelwch Coleg Caerdydd a'r Fro yn gyfrifol am drefniadau cynnal a chadw'r adeilad. Gwelsom dystiolaeth fod Profion Dyfeisiau Cludadwy yn gyfredol, i helpu i sicrhau bod offer trydanol bach yn addas i'w pwrpas ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Darparwyd ardystiad i ddangos bod gwiriadau diogelwch nwy ar gyfer yr adeilad yn gyfredol.

Roedd y trefniadau ar gyfer diogelwch tân yn cael eu goruchwyllo gan dîm iechyd a diogelwch y coleg, sy'n ymgymryd ag asesiadau risg tân. Mae ymarferion tân a phrofion larymau tân yn cael eu cynnal a'u profi yn rheolaidd. Roedd marsialiaid tân wedi cael eu henwebu hefyd er mwyn sicrhau bod staff, myfyrwyr a chleifion yn cael eu cludo'n ddiogel o'r adeiladpe bai argyfwng. Roedd arwyddion yn nodi'r allanfeydd tân.

Roedd gweithwyr cymorth cyntaf ar gael ac roedd y coleg yn sicrhau bod eu hyfforddiant yn gyfredol ac yn cael ei gynnal a'i gadw.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Gwelsom fod yr adeilad i'w weld yn lân ac yn daclus. Disgrifiodd y staff mewn manylder y trefniadau rheoli heintiau yn y gwasanaeth ac roedd y polisi yn unol â'r trefniadau hynny.

Roedd amserlenni glanhau yn cael eu defnyddio gan y staff glanhau. Fodd bynnag, dywedodd staff wrthym ynghylch y prosesau glanhau ychwanegol oedd ar waith rhwng cleifion a oedd yn cynnwys y peiriant golau pwls dwys, y darnau cyswlltar gyfer y peiriant golau pwls dwys a'r gwely ar gyfer triniaethau.

Canfuom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer storio a chasglu gwastraff.

Diogelu plant ac oedolion agored i niwed

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion sy'n hŷn na 18 mlwydd oed yn unig a gwnaeth staff gadarnhau eu bod yn cydymffurfio â hyn.

Roedd polisi ynghylch diogelu oedolion ar waith a oedd yn cynnwys gweithdrefnau clir i staff eu dilyn pe bai pryderon diogelu yn codi.

Dywedodd staff wrthym fod gan y coleg ei dîm diogelu ei hun ac mai dyma'r pwynt cyswllt cyntaf i staff a myfyrwyr pe bai ganddynt unrhyw broblemau ynghylch diogelu.

Roedd y staff wedi derbyn hyfforddiant ynghylch diogelu oedolion a phlant sy'n agored i niwed. Mae'r myfyrwyr yn derbyn gwybodaeth ynghylch y polisi diogelu.

Dyfeisiau ac offer meddygol a systemau diagnostig

Gwelsom dystiolaeth fod y peiriant golau pwls dwys wedi'i galibreiddio² ac wedi cael ei wasanaethu yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.

² Regular calibration can help insure the laser machine's performance stays consistent over time, ensuring top performance and output quality.

Gwelsom fod yna brotocolau triniaeth ar waith ar gyfer y peiriant golau pwls dwys ac roedd y rhain wedi'u goruchwyllo gan ymarferydd meddygol arbenigol.

Gwelsom fod cytundeb ar waith gydag ymgynghorydd amddiffyn rhag laserau³ ac roedd rheolau lleol⁴ a oedd yn rhoi manylion ynghylch defnyddio'r peiriant yn ddiogel. Roedd y rheolau hyn wedi cael eu hadolygu gan yr ymgynghorydd amddiffyn rhag laserau a gwelsom eu bod wedi eu llofnodi gan staff a oedd yn gweithredu'r peiriant golau pwls dwys a oedd yn dangos eu hymwybyddiaeth a'u cytundeb i ddilyn y rheolau hyn.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystysgrifau i ddangos bod yr holl weithredwyr golau pwls dwys wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth⁵ a/neu Gymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ)⁶ lefel 4 at ddefnydd triniaethau golau pwls dwys. Yn ogystal, roedd yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriant golau pwls dwys drwy'r gwneuthurwr.

Gwelsom fod offer amddiffyn llygaid ar gael i gleifion a gweithredwr y peiriant golau pwls dwys. Cadarnhaodd y staff fod sbectolau yn cael eu gwirio'n rheolaidd am unrhyw ddifrod.

³The Laser Protection Adviser is someone having sufficient skill in, and knowledge and experience of, relevant matters of laser safety, and able to provide appropriate professional assistance in determining hazards, in assessing risks, and in proposing any necessary protective controls and procedures. Many Laser Protection Advisers also provide training in laser safety.

⁴Local rules (or safe working procedures) should reflect safe working practices and relate to the day-to-day safety management of lasers, IPL systems and LEDs. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf

⁵Core of Knowledge training is intended for operators using lasers and IPL systems for various skin treatments. The training includes information and guidance on the safe use of lasers and IPL systems.

⁶Level 4 Certificate in Laser and Intense Pulsed Light (IPL) Treatments is an advanced qualification that has been specifically designed for beauty therapists.

Roedd arwyddion a golau y tu allan i'r ystafell driniaeth a oedd yn dangos pan oedd y peiriant golau pwls dwys yn cael ei ddefnyddio. Dywedwyd wrthym fod y peiriant yn cael ei gadw'n ddiogel bob amser. Roedd yr allwedd i'r peiriant yn cael ei chadw'n ddiogel mewn cwpwrdd â chod dan glo.

Gwnaethom adolygu'r ddogfennaeth a oedd yn ymwneud ag ymweliad yr ymgynghorydd amddiffyn rhag laserau blaenorol. Nid oedd unrhyw welliannau wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth bod systemau addas ar waith er mwyn asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. Er enghraifft, roedd y gwasanaeth yn ceisio barn cleifion yn rheolaidd fel ffordd o lywio gofal ac yn cynnal archwiliadau o gofnodion i sicrhau cysondeb gwybodaeth. Roedd myfyrwyr yn aml yn cael eu harsylwi er mwyn sicrhau bod eu hyfforddiant yn gyson â safonau'r cwrs ac roedd adrannau mewnol yn cynnwys yr adran iechyd a diogelwch yn asesu risgiau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch.

Mae archwiliadau allanol gan gyrff addysgol yn cael eu cynnal yn Urbasba er mwyn sicrhau bod y coleg yn cynnal safonau.

Rheoli cofnodion

Canfuom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel. Roedd cofnodion papur yn cael eu cadw mewn cwpwrdd a oedd dan glo ac a oedd yn hygyrch i aelodau staff awdurdodedig yn unig.

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a chanfod tystiolaeth fod nodiadau cleifion yn cael eu cynnal i safon uchel.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun ochr yn ochr â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Gwelsom fod gan Urbasba yng ngholeg Caerdydd a'r Fro dîm effeithiol ar waith, a oedd yn cael eu cefnogi gan strwythur rheoli lle roedd y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn glir.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod polisiâu a gweithdrefnau yn cael eu diweddarau a'u rhannu â'r staff yn rheolaidd. Roedd gan y gwasanaeth systemau ar waith i sicrhau bod cwynion a/neu sylwadau canmoliaethus yn cael eu cofnodi, a'u bod yn ymateb iddynt yn brydlon.

Roedd systemau sefydlog ar waith i gynnal gwiriadau cyn cyflogi ac i sicrhau bod staff yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Mae Urbasba yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro yn cael ei redeg gan reolwr cofrestredig ac unigolyn cyfrifol. Yr unigolyn cyfrifol sy'n rheoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd,⁷ gyda chymorth y rheolwr cofrestredig. Mae gan y gwasanaeth bedwar gweithredwr golau pwls dwys (y mae un ohonynt yn brif weithredwr).

⁷The Responsible Individual (RI) is specifically tasked with the responsibility of supervising the management of the establishment. Visit www.hiw.org.uk for more information

Gwelsom fod gan y gwasanaeth nifer o bolisiâu ar waith a oedd yn cael eu diweddaru'n rheolaidd gan y coleg. Roedd gan y dogfennau ddyddiadau cyhoeddi ac adolygu ac roedd system ar waith i ddangos pryd roedd y staff wedi darllen y polisiâu a'r gweithdrefnau, ac rydym yn cydnabod bod hyn yn arfer da.

Gellir gweld yr holl bolisiâu a'r gweithdrefnau ar fewnrwyd y coleg. Mae unrhyw ddiweddariadau yn cael eu hanfon at staff ar ffurf neges e-bost ac maent yn sicrhau bod y negeseuon allweddol a'r diweddariadau yn cael eu rhannu â'r holl staff a'r myfyrwyr drwy gyfarfodydd.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn wythnosol. Mae cofnodion yn cael eu cofnodi a'u cadw ar y system gyfrifiadurol fel bod yr holl staff yn gallu eu darllen os nad ydynt yn gallu mynychu cyfarfod.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyfredol ar waith.

Ymdrin â chwynion a rheoli digwyddiadau

Canfuwyd gennym fod gan y gwasanaeth weithdrefn cwyno a chanmol ar waith. Dywedodd y staff wrthym fod gan y gwasanaeth broses addas ar waith ar gyfer ymdrin â hyn, a chofnodi cwynion yn briodol a bod hyn yn dangos eu bod yn dysgu o unrhyw bryderon neu gŵynion a godir.

Nid oedd y gwasanaeth golau pwls dwys wedi derbyn unrhyw gwynion ers i'r gwasanaeth gael ei gofrestru.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod holl weithredwyr awdurdodedig y peiriant golau pwls dwys wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a/neu NVQ lefel 4.

Roedd gan yr holl staff raglen hyfforddi orfodol ar waith a oedd yn sicrhau eu bod yn cynnal eu sgiliau a'u gwybodaeth mewn nifer o feysydd gan gynnwys diogelu.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Dywedwyd wrthym am y prosesau recriwtio a chyflogi oedd ar waith er mwyn sicrhau bod gwiriadau cyflogi priodol yn cael eu cynnal ar gyfer staff newydd. Roedd hyn yn cynnwys gwiriad gan y gwasanaeth datgelu a gwahardd.⁸ Dywedwyd wrthym y bydd hwn yn cael ei adnewyddu bob tair blynedd ar gyfer yr holl staff. Rydym yn cydnabod bod hyn yn arfer da am ei fod yn galluogi'r gwasanaeth i gadw a chynnal dewisiadau recriwtio mwy diogel.

Roedd rhaglen ymsefydlu ar waith i gefnogi dechreuwyr newydd, ac roedd yr wybodaeth yn cael ei chofnodi ar ffeiliau staff.

Mae arfarniadau blynyddol hefyd yn cael eu cynnal ar gyfer yr holl staff sy'n ymwneud â pherfformiad a datblygiad.

⁸The Disclosure and Barring Service (DBS) helps employers make safer recruitment decisions and prevent unsuitable people from working with vulnerable groups. It replaces the Criminal Records Bureau (CRB) and Independent Safeguarding Authority (ISA).

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu arnynt, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Pan fyddwn yn nodi unrhyw ddiffyg cydymffurfio a phryderon difrifol am ddiogelwch a llesiant cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu trwy hysbysiad [o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Bodloni'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir mwy o wybodaeth am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon a oedd angen sylw ar unwaith	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y claf	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B Cynllun gwella

Gwasanaeth: Urbasba @ Coleg Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 26 Ebrill 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae angen diweddaru'r canllaw i gleifion er mwyn adlewyrchu cyfeiriad e-bost newydd AGIC ac mae angen ychwanegu gwybodaeth ynghylch sut gall cleifion gael mynediad at yr adroddiad arolygu diweddaraf. Dylai'r canllaw i gleifion diwygiedig gael ei anfon at AGIC.	Rheoliadau 7 (1) (f) & (g)	Bydd hyn yn cael ei gwblhau ar unwaith gan yr unigolyn cyfrifol a bydd pob copi yn cael ei ddiweddaru ar ein gwefan	Rachel Jones	Ar unwaith
Mae angen i enw ynghyd ag awdur y datganiad	Rheoliad 6 (1) Atodlen 1 (12)	Bydd hyn yn cael ei gwblhau gan yr unigolyn cyfrifol ar unwaith a bydd pob	Rachel Jones	Ar unwaith

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
o ddiben gael eu cynnwys ar y ddogfen.		copi yn cael ei ddiweddararu ar ein gwefan		
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Ni nodwyd unrhyw argymhellion yn ystod yr arolygiad hwn.				
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Ni nodwyd unrhyw argymhellion yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Rachel Jones

Swydd: Unigolyn Cyfrifol

Dyddiad: 3 Mehefin 2018

